

Cafodd Y Casglwr un o gyfraniadau olaf Dr T.J. Morgan cyn colli hawddgarwch y llenor, golygydd, ysgolhaig. Ac yma mae PRYS MORGAN yn parhau cymwynas y teulu i'w bobl.

Hela enwau – a chyfrol “yr hen Harlech”

MAE LLAWER o bethau wedi newid ym myd papurau newydd yn y chwarter canrif diwethaf. Un ohonynt yw hen arfer y *Times* o gyhoeddi erthyglau di-enw. Roedd cyhoeddi erthyglau di-enw yn gymaint o draddodiad yn y *Times* ag oedd cyhoeddi cannoedd o fân-hysbysebion ar draws y tudalen-blaen slawer dydd. Pan gyhoeddodd fy nhad erthygl ar gyfenwau o Gymru yn y *Times* ar Fawrth 8, 1960, un ddi-enw oedd hi, a rhaid felly, i bob gohebiaeth ddod trwy law'r golygydd.

Un llythyr cofiadwy o blith nifer oedd un gan Mr George Goyder, CBE, gŵr cyhoeddus ac amlwg yn Llundain, yn gofyn barn fy nhad am darddiad ei gyfenw. Yng nghyffiniau Llundain yr oedd ei deulu wedi bod yn trigo ers canol y ddeunawfed ganrif, ond roedd traddodiad cryf yn eu plith mai o Gymru y daethant. Er bod rhai o'r tylwyth wedi mynd i gredu mai o Holand yr oedd y cyfenw'n dod, y gred gyffredin yn eu plith oedd mai aelodau o deulu Gwydir oeddynt, a dilynwyd Bonnie Prince Charlie, ac wedi gorfod ffoi o Gymru i anhysbysrwydd y ddinas fawr, ac er mwyn ymddieithrio, wedi newid eu henw o Gwydir i Goyder.

Cofiaf i ni drafod y mater gyda'n gilydd, fel oedd ein harfer, ac anfon llythyr cwrtais yn ôl at Mr Goyder yn dweud nad oedd dim tystiolaeth dros gredu mai cyfenw Cymraeg oedd Goyder, ac nad oedd y stori ramantus am y Jacobitiaid yn gredadwy iawn.

Wedi'r cwbl, clywsom yr un math o stori droeon gan wahanol deuluoedd, er enghraifft, dyna chi'r Gregoriaid sydd yn credu mai disgynyddion Rob Roy MacGregor ydynt, wedi gorfod ffoi a newid eu henwau. A dyna adael gohebiaeth Mr Goyder fanna.

Ond fe aeth y gwaith ymchwil i gyfenwau yn ei flaen, ac ar ôl tua phymtheg mlynedd, tua 1975 neu 76, roeddwn i yn archifyd Morgannwg yn mynd trwy gyfenwau cofrestrî'r Dreth Aelwyd tua 1672, ac yn sydyn deuthum ar draws nifer helaeth o deuluoedd o gwmpas Caerdydd a'r enw Goyder arnynt.

Gan amlaf Goyder oedd y ffurf, ond ambell dro Goydoore neu Goidwr oedd. Ceid nifer o esiamplau o gylch gorllewin Caerdydd mewn manau fel

Pendeulyn neu Ddinas Powys.

* * *

AR UNWAITH dyma chwilio'n fanwl yn ôl trwy'r papurau am esiamplau anghofiedig, a dyma sgrifennu at gyfeillion yn gweithio ar hanes lleol Caerdydd a'r fro i ofyn am gymorth. Gwelsom fod ambell esiampl gennym o'r llys-enw *Coedwr* ar Gymry yn ystod y Canol Oesau, wedyn, esiamplau o'r cyfenw *Coydowre* a *Coyder* yn ardal Talacharn a Llansadwrn yn y 16 ganrif, ac hyd yn oed William Goyder ym Mro Morgannwg tua 1585.

Bu ein cyfaill Mr Barry Davies o Lys-Faen ger Caerdydd mor garedig a rhoi nifer fawr o enghreifftiau o'r cyfenw o gwmpas Caerdydd yn y 17 ganrif a'r 18 ganrif, ond yn nodi bod y cyfenw'n diflannu tua ail hanner y ganrif.

Mae diflaniad cyfenwau fel hyn o Gymru yn un o ddirgeledigaethau'r maes hwn. Efallai mai problem byd geneteg ydyw, nid byd hanes. Sut bynnag, mae'n eithaf tebyg fod ambell Goyder wedi diflannu o Gaerdydd i Lundain, ac onid un o'r rhain oedd cyn-dad Mr George Goyder?

Roedd yn rhaid sgrifennu ar unwaith at Mr Goyder gyda'r manylion, gan ymddiheuro bod hyn yn profi mai tarddiad digon gwerinol sef *coedwr* oedd i'r cyfenw, ac nid Arglwydd Gwydir, fel yr oedd ef a'i deulu wedi gobiethio.

Mawr oedd diolch Mr Goyder, ac yn wir, ymhen ychydig, tua 1980, daeth un o'r teulu i lawr i Gaerdydd i chwilio ymhellach i achau'r tylwyth. Gyda'i llythyr diolch, dyma Mr Goyder yn cynnwys pecyn bach.

Roedd am i ni gael llyfr gwerthfawr o blith ei gasgliad o lyfrau prin fel arwydd o ddiolch. Esboniodd ei fod wedi prynu'r llyfr gan obeithio cael manylion am gysylltiad Goyder â theulu Arglwyddi Gwydir. Gallai weld erbyn hyn nad oedd unrhyw bwrpas i ymchwil o'r fath, ac felly roedd am i ni gael y llyfr. Copi hardd yw o *The History of the Gwedir Family* wedi ei argraffu gan B White yn Llundain yn 1770.

Cyfrol ddi-enw ydyw, ond Daines Barrington oedd y golygydd, a seiliodd y llyfr ar lawysgrif Syr John Wynn o Wydir ar hanes ei ach a'i dylwyth, a sgrifennwyd tua dechrau'r 17 ganrif.

Sais oedd Daines Barrington,

ond barnwr yn llys y Sasiwn Fawr, a ddaeth yn gyfaill i'r Morysiaid, ac i Ieuan Fardd ac i Domos Pennant, ac fel Pennant, gŵr ydedd yn ymddiddori'n ddwfn yn hanes natur ac yn hanes Cymru. Llythyrau at Barrington a Phennant yw cynnwys llyfr enwog Gilbert White *The Natural History of Selbourne*. Perthynas iddo ef yw'r Benjamin White a argraffodd Hanes Gwydir yn 1770.

* * *

DAW EIN copi ni o un o lyfrgelloedd gorau Cymru sef Brogyntyn neu Porkington ar y ffin gerllaw Croesoswallt, un o gartrefi'r Arglwydd Harlech. Tu fewn i'r clawr mae plat llyfrgell o'r ddeunawfed ganrif yn dweud 'Porkington Library, shelf 2, Case 7, No. 57' Roedd gwir angen plat o'r fath gan fod William Ormsby-Gore, pedwerydd Arglwydd Harlech, yn ei erthygl ar lyfrgell Brogyntyn yng *Nghylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* Haf 1848, v, 165-74, yn dweud bod ganddo ddwy fil ar bymtheg o gyfrolau printiedig ym Brogyntyn.

Roedd sgweieriaid Brogyntyn yn y 18 ganrif yn eithriadol hoff o gasglu llyfrau, William Owen a fu farw'n 1768, ei fab di-briod R G Owen a fu farw'n 1792, y mab Francis Owen a fu farw'n ddi-blant hefyd, a'i unig ferch Margaret a fu farw yn 1806. Hi a briododd ag Owen Ormsby a'u merch hwy a ddaeth yn Mrs Ormsby-Gore, a dyna yw eu cyfenw hyd heddiw.

I lyfrgell Brogyntyn hefyd y daeth casgliad eu cefnder John Owen o Benrhos, sir Drefaldwyn, yn enwedig y llyfrau ar hanes natur. Mae'n bosibl mai trwyddo ef y daeth yr Owenaidd i gysylltiad â Daines Barrington, ond y peth tebycaf yw eu bod hwy wedi rhoi benthyg iddo un o'r copiau llawysgrif o hanes teulu Gwydir gan Syr John Wynn ei hun.

* * *

Y PETH mwyaf trawiadol am ein copi ni yw bod un o'r Owenaidd wedi mynd yn fanwl-fanwl trwy'r gyfrol mewn pensel, yn cywiro pob manylyn, yn union fel pe bai'n cywiro at y wasg, gan roi i mewn ambell baragraff sydd yn y llawysgrif ond heb fod yng nghopi Barrington, a hynny trwy gymharu pob gair yn y gyfrol

gyda phob gair yn llawysgrif Brogyntyn.

Er enghraifft, dywed *The Porkington MS says 29 but this must be an error as the deed will prove*. Hynny yw, mae'n cymharu'r darlleniadau gyda synnwyr y dogfennau Lladin gwreiddiol.

Ambell dro, balchder teuluol sydd yn gwneud iddo roi'r cywiriad: lle mae Barrington yn sgrifennu *'Ystumkegid was formerly one of the seats of the Owens of Cleneney'* mae'r sgweier wedi dileu hyn a dweud *'is still'*. Wedi'r cwbl, yr oedd ystad Clennau yn eu meddiant o hyd, ac un o'u hoff gartrefi oedd Glyncywarch ger Talsarnau.

* * *

MAE'R MATH yma o gywiro manwl yn arwydd fod gan y teulu ddiddordeb ysol yn eu hachau, ac yn wir, mae'r cywiro manwl ar yr enwau Cymraeg, a gamargreffir yn aml gan Barrington, yn arwydd bod ganddynt gryn grap ar Gymraeg. Mae Dr E D Jones yn ei erthyglau ar lawysgrifau Brogyntyn yng *Nghylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn dangos bod teulu Brogyntyn wedi parhau i ddeall Cymraeg hyd at rywbryd yn y 18 ganrif.

Rwyf yn cofio'n dda wrth i mi sgrifennu at Mr Goyder i ddiolch iddo am ei rodd werthfawr fy mod wedi dweud wrtho bod y gyfrol fechan wedi dianc o un o lyfrgelloedd mwyaf nodedig Cymru a'r gororau a'i bod yn dwyn ar gof i ni un o hen gyfeillion fy nhad sef William, yr hen Arglwydd Harlech, a fuasai'n ddirprwy ganghellor Prifysgol Cymru yn y pumdegau.

Cymeriad hoffus a digrif ydoedd, ac fe allaf gofio fy nhad yn dweud am 'yr hen Harlech' ei fod yn troi at fy nhad ar ddechrau seremoni raddio gan ddweud *'For Heaven's sake, T J, stop me when I get my doethurs and my athros all mixed up!'*

Dyn hynod ddiwylliedig oedd, arbenigwr ar gelf y Dadeni, llyfrbryf a oedd wedi prynu llawer o *incunabula* i lyfrgell Brogyntyn. Bu farw'r hen arglwydd, a symudodd y teulu o Froggyntyn, gan ymgartrefu yn y 'Glyn' ger Talsarnau.

Sut a phryd y dihangodd ein *Gwedir* ni o lyfrgell Brogyntyn? Tybed a all unrhyw un o ddarllenwyr Y Casglwr roi gwybod i mi?